# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Mehefin 2002

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**Ron Davies (Caerffili);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ei gyflwyniad i adolygiad Pwyllgor Dethol Ty'r Arglwyddi o fformiwla Barnett. (WAQ18471)

**Ron Davies (Caerffili);** Pa gyswllt y mae'r Prif Weinidog neu unrhyw aelod o'i weinyddiaeth wedi'i gael gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron ar ôl i Heddlu De Cymru gyflwyno'r ffeil iddynt mewn perthynas â Mike German. (WAQ18472)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Yn sgîl eich ateb i OAQ17078, a'ch llythyr eglurhaol dyddiedig 20 Mai 2002, pa mor aml wnaeth Mike German gadeirio cyfarfodydd o'r Cabinet pan oedd yn llenwi swydd y Dirprwy Brif Weinidog. (WAQ18478) **W**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr arian sy'n cael ei ddyrannu i gerddorfeydd siambr unigol yng Nghymru yn unol â'r gwahanol gyhoeddiadau a wnaed yn ystod mis Mawrth ac Ebrill. (WAQ18479)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion llawn yr arian a roddwyd yn uniongyrchol gan WDA ar gyfer prosiectau "creu swyddi" yn Abertawe a Chaerdydd yn ystod y blynyddoedd ariannol 1999-2000, 2000-2001 a 2001-2002. (WAQ18480)

**Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion llawn yr arian a roddwyd yn uniongyrchol gan y WDA ar gyfer prosiectau Cyngor y Celfyddydau yn Abertawe a Chaerdydd yn ystod y blynyddoedd ariannol 1999-2000, 2000-2001 a 2001-2002. (WAQ18481)